



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams
Y Stryd Fawr
Caerllion
NP18 1AZ**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams yn nhref Caerllion yng Nghasnewydd. Mae 571 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng tair ac un ar ddeg oed, gan gynnwys 52 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae gan yr ysgol 20 dosbarth, y mae tri ohonynt yn ddosbarthiadau oedran cymysg. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 3.5%, sydd gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 9% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Mawrth 2018. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2015.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yn ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae gofyniad cyfreithiol ar y corff llywodraethol i drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn dangos safon uchel o ofal ac ystyriaeth am bobl eraill. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn benodol, mae llawer ohonynt yn cyrraedd safonau uchel mewn llafaredd ac ysgrifennu a defnyddiant eu medrau rhifedd yn dda i ddatrys problemau go iawn.

Mae gan bron bob aelod o staff berthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous, go iawn, sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dysgu yn llawn. Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, cymdeithasol a moesol disgyblion yn arbennig o dda. Mae gwerthoedd craidd yr ysgol yn gryfder gwirioneddol, ac yn treiddio trwy holl feysydd bywyd yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae arweinwyr eraill yn yr ysgol yn ei chefnogi'n dda. Mae staff yn gweithio'n dda mewn timau mewn diwylliant ysgol cefnogol ac maent yn gwneud cynnydd cryf wrth gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff pob un o'r staff gyfleoedd hyfforddi buddiol. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i wneud gwelliannau pwysig i addysgu a dysgu dros y blynyddoedd diwethaf.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Mynd i'r arfer â'r pryder ynghylch diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad
- A2 Rhannu'r arfer dda yn yr ysgol i sicrhau cysondeb gwell wrth gymhwyso egwyddorion y cyfnod sylfaen
- A3 Miniogi gweithgareddau monitro i ganolbwyntio'n gliriach ar effaith darpariaeth yr ysgol ar wella deilliannau disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sydd yr un fath â'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol, yn enwedig o ran gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion arbennig yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni eu targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau llafaredd cryf. Mae llawer o ddisgyblion derbyn yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac oedolion. Ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion yn defnyddio iaith ddiddorol i ddisgrifio anifeiliaid ac yn gofyn cwestiynau treiddgar am eu nodweddion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus a huawdl. Defnyddiant ystod eang o iaith sy'n benodol i bwnc gydag ymwybyddiaeth aeddfed o'u cynulleidfa a'u testun. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud a gyda diddordeb pan fydd pobl eraill yn siarad.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, daw llawer o ddisgyblion yn garwyr llyfrau brwd. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dysgu medrau darllen cynnar yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen testunau syml â chywirdeb a dealltwriaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl a hyderus. Maent yn mynegi ffafriaethau am eu hoff awduron a mathau o lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio medrau fel brasddarllen a bwrw golwg i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym mewn gwahanol destunau mewn llyfrau ac ar-lein. Maent yn deall pam mae awduron yn ysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd, ac yn defnyddio rhesymu'n dda i archwilio a thrafod ystyr testunau.

Yn y dosbarth meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sicrhau medrau ysgrifennu cynnar, er enghraifft trwy greu marciau a thynnu llun patrymau â gwahanol offer ac adnoddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac yn dewis geirfa gyffrous. Er enghraifft, maent yn cynnwys geiriau anturus wrth ddisgrifio taith i draeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu gwybodaeth am ffoneg yn dda i wneud cynigion argyhoeddiadol i sillafu geiriau cymhleth, ac yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig a hyderus. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod helaeth o iaith ddychmygus i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y darlennydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio gwahanol dechnegau iaith, fel cwestiynau rhethregol a gorliwio, yn eu hysgrifennu perswadiol i ennill pleidleisiau ar gyfer eu dyfeisiau Fictoriaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn sillafu'n gywir ac yn defnyddio atalnodi'n effeithiol i drefnu eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddestlus ag ysgrifen sownd. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda i gefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cyflwyno cymariaethau cywir ac addysgiadol o fywyd ysgol yn Oes Fictoria a heddiw.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ennill medrau rhif cadarn. Yn y dosbarth meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau defnyddio iaith fathemategol, fel 'mwy' a 'llai', yn gywir. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif i fyny fesul 10 a 100 yn hyderus ac yn defnyddio unedau ansafonol i fesur printiau pawen yn eu hardal awyr agored yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r

rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda rhifau mawr yn hyderus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn mesur symiau o hylif yn gywir gan ddefnyddio mililitrau a litrau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn gywir i ddatrys problemau go iawn. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffracsiynau a chanrannau yn hyderus i gyfrifo cost tyfu a gwerthu bananas. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio eu gwybodaeth am hyd i ddylunio cerbyd sy'n symud, ac ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn darlunio graffiau bar cywir i gymharu'r tymheredd yng Nghaerllion a Delhi.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dechrau defnyddio TGCh yn briodol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymarfer eu medrau ffoneg a rhif yn annibynnol gan ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol. Mae llawer ohonynt yn mynd at eu gwaith ac yn ei arbed yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu ystod eang o fedrau TGCh trosglwyddadwy, y maent yn eu cymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn defnyddio sgriniau gwyrdd yn hyderus i greu podlediadau, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio taenlenni'n fedrus i reoli cyllideb yn gywir ar gyfer eu harddangosfa. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o gronfeydd data yn llai sicr.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, ac maent yn mwynhau siarad ag oedolion ac â'i gilydd. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella eu medrau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ateb cwestiynau'n hyderus, er enghraifft am y tywydd, ac i ddisgrifio'u dillad. Ym Mlwyddyn 2, maent yn ysgrifennu ymadroddion syml, er enghraifft i gynllunio gwahoddiad i bicnic ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am ystod eang o batrymau brawddeg a geirfa. Mae disgyblion mwy abl yn ymestyn eu hatebion yn dda gan ddefnyddio gwahanol gysyllteiriau. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n rheolaidd yn Gymraeg ar destunau cyfarwydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ymarfer defnyddio amser y gorffennol i ysgrifennu adroddiadau byr am eu gwyliau, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu hunangofiannau cywir a manwl. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen eu gwaith eu hunain a thestunau syml gydag ynganiad manwl gywir a dealltwriaeth addas.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad eithriadol o dda mewn ystafelloedd dosbarth ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Dangosant lawer o garedigrwydd ac ystyriaeth am ei gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau yn ystod amser egwyl. Mae gan bron bob un o'r disgyblion berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag oedolion, ac mae hyn yn gwella eu synnwyr o les yn effeithiol. Maent yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt bryder. Maent yn teimlo'n hyderus y bydd oedolion yn gwrandao arnynt ac y byddant yn delio ag unrhyw broblemau'n gyflym.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu, ac maent yn awyddus i wneud yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymroi i'w gwaith yn

gadarnhaol ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n aeddfed mewn parau neu grwpiau, maent yn gwrando'n astud ac yn parchu barn disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn bwrpasol i fwrw ymlaen â'u tasgau mewn gwersi. Maent yn dangos gwydnwch gwych yn eu dysgu ac yn defnyddio ystod o strategaethau pan fyddant yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei fwyta a'i yfed i aros yn iach, ac maent yn mwynhau gweithgarwch corfforol. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n heini trwy ymarfer corff, ac mae llawer ohonynt yn gorfforol egniol amser chwarae. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol, fel pêl-rwyd a rygbi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngwyd.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain â brwdfrydedd, yn cynnwys fel rhan o grwpiau llais y disgybl yr ysgol. Maent yn mwynhau cynrychioli eu cyfoedion ac yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth i'r ysgol. Er enghraifft, mae aelodau o'r 'criw lles' yn cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion fod yn gorfforol egniol amser chwarae trwy eu gwaith fel arweinwyr iard chwarae. Er bod grwpiau disgyblion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn gwneud penderfyniadau, caiff llawer o grwpiau eu harwain i raddau helaeth gan oedolion. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ymgymryd â rolau allweddol fel ysgrifennu cofnodion a pharatoi agendâu. Mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dewis agweddau o ddiddordeb o fewn testunau i ymchwilio iddynt.

Mae pwyllgor eco'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at gynaliadwyedd yn dda. Er enghraifft, o ganlyniad i'w gwaith, mae disgyblion hŷn yn siarad yn wybodus am bwysigrwydd lleihau eu hól-troed cyffredinol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth gref o degwch a'r ffordd y mae hyn yn bwysig o ran helpu pobl i gyd-dynnu â'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod angen helpu pobl eraill sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Maent yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at elusennau cenedlaethol, rhyngwladol a lleol, er enghraifft trwy anfon gwisgoedd ysgol ail-law at blant yn Sambia. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymuned leol yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau rheolaidd i godi sbwriel, ac yn plannu cloddiau ac yn gosod hadau blodau gwyllt yn yr ardal leol. Mae'r gwaith hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion lleol cyfrifol.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan bron bob aelod o staff berthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio canmoliaeth gadarnhaol i annog disgyblion i fod yn ddysgwyr gweithgar a dyfalbarhau â'u gwaith. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddysgu, ac mae'n cyfrannu at y ffordd effeithiol y mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cyflymdra priodol yn eu haddysgu sy'n symud dysgu disgyblion ymlaen yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio cynorthwywyr addysgu'n bwrpasol i gefnogi unigolion a grwpiau o

ddisgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu hystafelloedd dosbarth yn ofalus i greu lleoedd dymunol sy'n ffafriol i ddysgu. Maent yn creu awyrgylchoedd digynnwrf, er enghraifft trwy ddefnyddio cerddoriaeth briodol i greu synnwyr o lonyddwch a pharodrwydd i ddysgu. Mae gan bron bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Trwy system heriau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau llythrennedd a rhifedd, maent yn rhoi dewis o weithgareddau dysgu i ddisgyblion roi cynnig arnynt ar wahanol lefelau her. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn fodolau rôl iaith cryf, llawer ohonynt mewn Cymraeg a Saesneg. Pan fo'n briodol, mae oedolion yn defnyddio ystod dda o eirfa sy'n benodol i bwnc, er enghraifft wrth addysgu celf a gwyddoniaeth.

Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol i ddisgyblion, ac amser priodol i ymateb i'w sylwadau ysgrifenedig. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar helpu disgyblion i wella eu gwaith. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion asesu gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol, fel partneriaid siarad, i sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau rhagarweiniol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cytuno ar dargedau dysgu personol gwerth chweil gyda disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod eu targedau ac yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt weithio tuag at eu cyflawni. Mae bron pob un o'r athrawon yn holi disgyblion yn fedrus i fesur eu dealltwriaeth a helpu llywio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae llawer o athrawon yn y cyfnod sylfaen yn cynllunio gweithgareddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n bwrpasol ac yn hwyl. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn weithgar ac ymholgar, yn gwneud dewisiadau annibynnol ac yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn dda. Er enghraifft, maent yn mynd ar helpa i chwilio am drywyddau gwahanol anifeiliaid, ac yn creu tai wedi'u hinswleiddio'n dda ar gyfer draenogod. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn gyson dda ar draws y cyfnod, ac o bryd i'w gilydd, mae oedolion yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i ddisgyblion sy'n eistedd am gyfnodau hir. Mae hyn yn arafu cyflymdra'r dysgu, ac o ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymddieithrio.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gynllunio ar gyfer pontio tuag at y cwricwlwm newydd i Gymru. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio gyda'i gilydd mewn timau i roi profiadau dysgu cyffrous, go iawn i ddisgyblion. Mae'r gwaith pwysig hwn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd ac ystyrion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu, er enghraifft trwy ddewis gwahanol themâu i astudio o fewn eu testunau trofwaol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn effeithiol. Maent yn manteisio ar bob cyfle i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ystafell ddosbarth ac yn annog disgyblion i ateb yn Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal leol, er enghraifft bywyd yn y gaer Rufeinig leol yng Nghaerllion. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu'n briodol am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft am yr arlunydd Rhiannon Roberts ac effaith gwaith y gwleidydd Aneurin Bevan.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion a staff yn dangos agweddau gofalgar tuag at ei gilydd ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda. Mae hyn yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf ac yn hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad a moesau ymhlith disgyblion.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, cymdeithasol a moesol disgyblion yn eithriadol o dda. Mae gwerthoedd craidd yr ysgol yn gryfder gwirioneddol ac yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, yn ystod gwasanaethau ar werthoedd, mae staff yn annog disgyblion i feddwl, myfyrio a gwerthuso p'un a ydynt yn ffrind dibynadwy. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau creadigol, er enghraifft trwy berfformiadau ysgol gyfan rheolaidd, y carnifal ar ddiwedd Blwyddyn 6 a'r eisteddfod flynyddol.

Mae aelodau staff yn croesawu rhieni i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn sesiynau dysgu agored i ddathlu gwaith eu plant. Er enghraifft, mae athrawon derbyn yn darparu ystod o weithdai addysgiadol i rieni i'w helpu i gefnogi medrau darllen a fhoneg cynnar eu plant. Mae nosweithiau agored rheolaidd yr ysgol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant. Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwefan yr ysgol yn sicrhau bod yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion i fod yn iach yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwersi addysg gorfforol rheolaidd. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, sy'n helpu disgyblion i fod yn gorfforol egnïol a gwneud dewisiadau iach am eu ffordd o fyw. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn clybiau hoci a phêl-droed. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio offer chwaraeon amser chwarae i aros yn egnïol.

Mae arweinwyr yn olrhain a monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr, ac yn gweithio'n agos gyda swyddog presenoldeb yr ysgol i weithio gyda disgyblion y mae eu presenoldeb yn isel. Er bod presenoldeb yn dda ar y cyfan, nid yw arweinwyr bob amser yn herio rhieni'n ddigon da pan fyddant yn dewis cymryd gwyliau yn ystod y tymor.

Mae staff yn defnyddio system ar-lein effeithiol i olrhain a monitro cynnydd a lles yr holl ddisgyblion yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi a darparu cymorth buddiol penodol ar gyfer disgyblion a allai fod yn tangyflawni.

Mae darpariaeth yr ysgol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig yn gryf. Mae gan bob disgybl ar gofrestr anghenion arbennig yr ysgol dargedau priodol ar gyfer gwella. Mae staff, rhieni a disgyblion yn adolygu'r targedau hyn yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb am eu dysgu i ddisgyblion, a dealltwriaeth o'u camau nesaf. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu grwpiau ymyrraeth bach a llwyddiannus i gefnogi lles emosiynol a medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion, ac mae'n sicrhau bod y rhan

fwyaf o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff. Er enghraifft, mae cyfarfodydd rhwng y seicolegydd addysg, y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol ac athrawon dosbarth yn darparu strategaethau addysgu defnyddiol i gynorthwyo disgyblion a nodwyd yn llwyddiannus.

Cododd arolygwyr bryder penodol ynghylch diogelu gyda'r ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni pob un o'r gofynion eraill ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol i'r ysgol ac yn dosbarthu cyfrifoldebau'n dda. Mae hi'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, ac yn eu cefnogi a'u herio i fodloni'r rhain yn llwyddiannus. Ar y cyd â thîm arweinyddiaeth effeithiol a chydwybodol, mae hi wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio'n gryf ar godi safonau a datblygu disgyblion fel unigolion o fewn lleoliad cynhwysol. Mae ethos tîm cryf yn yr ysgol, ac mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i gefnogi ei gilydd i ysgogi gwelliant yn yr ysgol.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae grwpio staff yn dimau yn creu diwylliant cadarnhaol o rannu arfer ystafell ddosbarth effeithiol. Mae mentora a hyfforddi rheolaidd yn gwella medrau arwain yn llwyddiannus, ac mae'n hynod effeithiol o ran gwella arfer ystafell ddosbarth. Mae hyn hefyd yn helpu sicrhau disgwyliadau cyson pan fydd arweinwyr yn arsylwi ac yn llunio barnau ar addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau strategol gydag ysgolion lleol eraill i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft gwella medrau mathemategol disgyblion. O ganlyniad i weithio gydag ysgolion eraill, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion gan ddefnyddio sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft cynllunio eu gwariant o fewn cyllideb benodol.

Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd. Fodd bynnag, ni chânt fewnbwn uniongyrchol i adolygu a gwerthuso cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni ei blaenoriaethau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu llywodraethwyr i ofyn cwestiynau treiddgar a chael dealltwriaeth gywir o ba mor dda y mae disgyblion yn cyflawni.

Mae proses yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwella yn llwyddiannus o ran sicrhau gwelliannau. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, maent yn olrhain perfformiad disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i nodi meysydd lle mae angen i'r ysgol wella. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau gwerth chweil, er enghraifft i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu medrau ysgrifennu i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn adolygu eu cynnydd tuag at

fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn briodol mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr a chyfarfodydd staff. Maent yn ymgynghori â staff yn rheolaidd i wella agweddau penodol ar y ddarpariaeth, er enghraifft defnyddio'r awyr agored i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio gweithgareddau monitro yn ddigon da i werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Caiff rhieni ystod addas o gyfleoedd i fynegi eu barn am yr ysgol, gan gynnwys trwy lenwi holiaduron. I ymateb i'r gwaith hwn, mae'r ysgol wedi datblygu ystod ehangach o ffyrdd o gyfathrebu â rhieni. Mae arweinwyr yn gwranddo ar farn disgyblion yn briodol wrth wneud penderfyniadau am yr ysgol gyfan. Er enghraifft, helpodd disgyblion ddylunio cymeriadau sy'n arch-arwyr i adlewyrchu pedwar diben craidd y cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu yn effeithiol. Mae hyn yn helpu cryfhau arfer broffesiynol athrawon ac yn cefnogi'r ysgol i gyflawni ei nodau gwella. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Mae staff yn gwerthuso effaith hyfforddiant yn dda. Er enghraifft, maent wedi nodi bod yr hyfforddiant ar gyfer staff cymorth ar gefnogi disgyblion penodol yn galluogi disgyblion targedig i elwa ar yr ystod lawn o weithgareddau dysgu, a chymryd rhan ynddynt.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol, ac yn adolygu gwariant yn ofalus. Er gwaethaf oedran yr adeiladau a'r anawsterau cysylltiedig sy'n codi, mae staff yn darparu amgylchedd dan do ac awyr agored croesawgar a difyr sy'n cefnogi dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae cynlluniau cadarn ar waith i wella adeiladau a thir yr ysgol i ddiwallu anghenion o ran y ddarpariaeth a'r cwricwlwm yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn targedu cyllid yn dda i ddiwallu anghenion disgyblion, i gefnogi blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol ac ar gyfer hyfforddiant staff. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n bwrpasol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd a rhifedd, a datblygu lles disgyblion yn llwyddiannus.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2019